

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer

15/5/17

Presennol: Eleri Jones (Cadeirydd), Tyly Roberts, Geraint Roberts, Dafydd Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd yr aelodau gan y cyn-Gadeirydd, Eleri Jones a derbyniwyd ymddiheuriadau Emyr Jones ac Alan Jones Evans.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 27/2/17.
5. Materion yn codi:
 - a. 8a – derbyniwyd gwybodaeth am brisiau di-ffib a chytunwyd i holi am giosgs BT. Hefyd cytunwyd i ofyn i Parc Cenedlaethol Eryri am ganiatâd i newid eu defnydd.
 - b. Derbyniwyd ymateb Cyngor Gwynedd am lanweithdra toiledau'r Grîn; dywedwyd eu bod yn monitro'n amlach.

6. Y Fynwent:

- a. Derbyniwyd gwybodaeth fod y fynwent wedi bod ym mherchnogaeth y Cyngor Plwyf (ac felly ei ddisgynyddion) ers 1925. Derbyniwyd sicrwydd fod yswiriant presennol y Cyngor yn ddigonol ar gyfer y cyhoedd.
- b. Ysgrifennodd y Clerc at berchnogion yr eglwys yn gofyn iddynt roi mesurau mewn grym i sicrhau diogelwch y cyhoedd.
- c. Mae arwydd yn y fynwent yn gofyn yn garedig i deuluoedd glirio unrhyw wastraff blodau.
- d. Cytunwyd i gais gan Peredur Roberts i osod carreg fedd. Derbyniwyd manylion carreg a osodwyd gan gwmni I B Williams.

7. Materion ariannol:

Ystyriwyd Cyfrifon y flwyddyn 2016-17 ac fe'u cymeradwywyd ar gyfer ystyriaeth yr Archwilydd Allanol.

Derbyniadau:

- a. Taliad cyntaf Praesept 2017-18 gan Cyngor Gwynedd.
- b. Taliad I B Williams am osod carreg.

Anfonebau:

- a. J D Roberts CPFA am y flwyddyn 2015-16 £46

.....Cadeirydd.....Clerc

- b. Cytunwyd ar gynnig Zurich am Yswiriant 2017-18 (£84)
- c. Adolygwyd Cytundeb Cyflogaeth y Clerc i gyd-ymffurfio a model newydd Un Llais Cymru.

8. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Derbyniodd y Clerc gwynion am y safle biniau; mae'r achwynwr yn fodlon ar yr atebion a gafodd gan Gyngor Gwynedd a'r Clerc.

9. **Partneriaeth Penllyn:**

- a. Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.
- b. Derbyniwyd copi o'r Cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Phartneriaeth Penllyn.

10. **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri:

- a. Ymatebwyd i gais Parc Carafanau Penybont i ymestyn y tymor gan ofyn i'r Parc Cenedlaethol gadw at eu rheolau fel bo pob maes o dan yr un amodau'n ddiwahân.
- b. Derbyniwyd rhybudd ymlaen llaw am ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Adnau Cynllun Datblygu Lleol (drafft; ffurf fer)
- c. Derbyniwyd gwybodaeth am goed afalau am ddim; cytunwyd i wneud cais gyda'r bwriad o'u lleoli yn y maes picnic yng nghwm Hirnant ac ar y llechwedd yn y fynwent.
- d. Derbyniwyd gwybodaeth am Warchodfa Awyr Dywyll Eryri.
- e. Derbyniwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd gyda Chynghorwyr.

Cyngor Gwynedd: Nid oedd enwebiadau i'w hystyried fel aelod o'r Pwyllgor Safonau.

Arall: Ystyriwyd cais am sylwadau am gau'r ffordd yn ystod y triathlon 3/9/17. Roedd y Cyngor yn ddiolchgar i stiwardiaid am geisio lleihau'r drafnidiaeth trwy Langywer.

Nodwyd derbyn gwybodaeth gan Hosbis Tŷ'r Eos.

Derbyniwyd llythyron o ddiolch am gyfraniadau.

Un Llais: Derbyniwyd gwybodaeth am hyfforddiant

11. **Cytunwyd ar ddyddiadau cyfarfodydd 2017-18:**

5 Mehefin	Gorffennaf 3ydd	Medi 11
Tachwedd 13	Ionawr 8fed	Chwefror 26

.....Cadeirydd.....Clerc